# Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024

## Penderfyniad ar gapiau diogelu prisiau ar gyfer gwasanaethau cyffredinol Ail Ddosbarth

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 24 Ionawr 2024

# Cynnwys

## Adrannau

1. Trosolwg ..... 3

# 1. Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn nodi penderfyniadau Ofcom ynghylch capiau prisiau manwerthu ar wasanaethau post cyffredinol y Post Brenhinol i fod yn gymwys o 1 Ebrill 2024. Prif nod ein cynigion yw sicrhau bod gwasanaethau post cyffredinol yn dal yn fforddiadwy i ddefnyddwyr. Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym hefyd wedi ystyried effaith unrhyw gapiau ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

Mae gwasanaethau post yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein cymdeithas. Mae bron pawb yn y DU yn defnyddio’r gwasanaethau hyn yn rheolaidd, megis i dderbyn nwyddau ar ôl siopa ar-lein, i gael gohebiaeth feddygol bwysig, neu i anfon cardiau at ffrindiau a pherthnasau.

Ar hyn o bryd, mae’r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon ac yn casglu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos, a pharseli bum diwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf ar draws y DU. Ers 2012, mae Ofcom wedi gosod cap ar lythyrau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol Ail Ddosbarth a pharseli bach er mwyn sicrhau bod gwasanaethau post yn fforddiadwy i ddefnyddwyr. Y tro diwethaf i ni adolygu’r capiau hyn oedd yn 2018-19, a bydd y capiau presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Rydym o'r farn bod angen parhau i gadw cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth i sicrhau bod defnyddwyr yn cadw mynediad at wasanaethau post fforddiadwy. Rydym hefyd wedi dod i’r casgliad ein bod yn gallu cael gwared ar y cap ar barseli Ail Ddosbarth o ystyried y pwysau cystadleuol ar y Post Brenhinol a fydd yn sicrhau bod prisiau parseli’n parhau’n fforddiadwy.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

- Tynnu’r cap diogelu oddi ar barseli. Rydym o’r farn nad yw cap diogelu ar wasanaethau parseli’r Post Brenhinol yn briodol mwyach. Mae cystadleuaeth yn y farchnad hon i bob pwrpas yn cyfyngu ar allu’r Post Brenhinol i godi prisiau ar gyfer prynu ar-lein ac wyneb yn wyneb (h.y. yn Swyddfa’r Post), gan sicrhau felly eu bod yn parhau i fod yn fforddiadwy. Hyd yn oed yn y rhannau hynny o’r DU lle mae cystadleuaeth parseli’n llai dwys, bydd defnyddwyr yn parhau i elwa gan y bydd yn rhaid i’r Post Brenhinol osod un pris unffurf ar gyfer y gwasanaethau hyn yn genedlaethol.
- Cadw cap diogelu ar lythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth. Mae'r Post Brenhinol yn parhau i fod bron yn fonopoli wrth ddarparu llythyrau ac ni allwn ddibynnu ar gystadleuaeth i sicrhau bod prisiau’n parhau’n fforddiadwy heb gap ar y gwasanaethau hyn.
- Creu un cap basged ar lythyrau mawr a safonol Ail Ddosbarth. Bydd hyn yn rhoi ychydig mwy o hyblygrwydd masnachol i’r Post Brenhinol wrth osod prisiau rhwng llythyrau safonol a mawr ar yr amod nad yw pris y fasged (cyfartaledd pwysedig ) yn codi’n gynt na’r cap a osodwyd gan Ofcom.
- Caniatáu i’r cap diogelu ar lythyrau godi yn unol â chwyddiant (CPI), ond dim uwch. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod y prisiau presennol yn fforddiadwy i’r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ond bod cynnydd mewn termau real yn debygol o fod mewn perygl o’u gwneud yn anfforddiadwy i fwy o ddefnyddwyr, gan gynnwys rhai defnyddwyr sy’n agored i niwed.

- Parhau i gyfyngu'r capiau diogelu i wasanaethau llythyrau Ail Ddosbarth. Nid ydym wedi nodi pryder ynghylch fforddiadwyedd mewn perthynas â gwasanaethau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol eraill o ystyried natur eu defnydd a'r mynediad amgen a ddarperir gan wasanaethau Ail Ddosbarth.
- Gosod cap am dair blynedd yn hytrach na phump, fel y cynigiwyd. Mae hyn i gydnabod y dystiolaeth y gallai ein cap arfaethedig, o flwyddyn ariannol 2027-28, ddechrau effeithio'n sylweddol ar hyblygrwydd masnachol y Post Brenhinol ar gyfer rhai o'i wasanaethau eraill ac felly gallai gael mwy o effaith ar gynaliadwyedd ariannol y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol na'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol. Yn ystod y cyfnod o dair blynedd, rydym yn bwriadu ymgysylltu â'r Post Brenhinol i ystyried dulliau amgen o sicrhau fforddiadwyedd – er enghraifft, cynllun disgownt wedi'i dargedu ar gyfer defnyddwyr agored i niwed. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym hefyd wedi cyhoeddi cais am fewnbwn ar ddatblygiad y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol, sy'n nodi ein barn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod angen i'r gwasanaeth cyffredinol newid er mwyn cyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr a sicrhau ei fod yn gallu parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.[1] Felly, mae'n bosibl y bydd angen diwygio ymyriadau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch fforddiadwyedd i adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath. Beth bynnag, byddwn yn ystyried ein dull prisio yn y dyfodol cyn 2027-28, gan ddefnyddio ein pŵer cyfarwyddo i gapio prisiau os oes angen.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

[1] Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol